Ysgol Gynradd Gorslas,
Heol Y Llew Du,
Gorslas,
Llanelli,
Sir Gaerfyrddin.
SA14 6RS

Pennaeth /Headteacher -**Mrs B. Owen (B.Ed)**
Dirprwy Bennaeth / Deputy Headteacher:
Mrs A. Price (B.Ed)
01269 842929
Beverley.owen@gorslas.ysgolccc.cymru

Gorslas Primary School,
Black Lion Road,
Gorslas,
Llanelli,
Carmarthenshire.
SA14 6RS

Plant y Cyfnod Sylfaen yn dychwelyd i'r Ysgol 12/2/21

Annwyl Riant/Gofalwr

Gobeithio eich bod yn cadw'n ddiogel ac yn iach yn ystod y cyfnod anodd a heriol yma.Fel yr ydych wedi clywed, bydd plant y Cyfnod Sylfaen oed 3-7 (Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2) yn dychwelyd i'r ysgol yn raddol ac yn ddiogel o Chwefror 23ain ymlaen, gyda'r bwriad o gael **pob** disgybl yn y Cyfnod Sylfaen yn ôl yn yr ysgol ar Fawrth 1af. Yr ydym yn edrych ymlaen i groesawi'r plant yn ôl. Os ydych am drafod unrhyw bryderon sydd gennych o ran trefniadau dychwelyd i'r ysgol, mae croeso i chwi fy ffonio neu e bostio aelodau'r staff.

Dyma'r trefniadau ar gyfer dychwelyd yn ddiogel i'r ysgol-

- **Dydd Llun Chwefror 22ain yn ddiwrnod Cynllunio i'r Staff. Bydd darpariaeth ar gyfer plant bregus a phlant gweithwyr critigol ar gael.**

- **Dydd Mawrth Chwefror 23ain-** ***Dosbarth Derbyn (Mrs Price) a Blwyddyn 2 (Mrs Thomas)***

- **Dydd Mercher Chwefor 24ain –** ***Meithrin (y plant a ddechreuodd Mis Medi 2020 a Ionawr 2021 Mrs Price) a Blwyddyn 1(Mrs Thomas)***

- **Dydd Iau Chwefror 25ain-** ***Dosbarth Derbyn (Mrs Price) a Blwyddyn 2 (Mrs Thomas)***

- **Dydd Gwener Chwefror 26ain -** ***Meithrin (y plant a ddechreuodd Mis Medi 2020 a Ionawr 2021 Mrs Price) a Blwyddyn 1(Mrs Thomas)***

- **Dydd Llun Mawrth 1af-** ***pob plentyn yn y Cyfnod Sylfaen Meithrin, Derbyn, Blwyddyn 1 a 2 yn ôl yn yr ysgol (dosbarth Mrs Price a Mrs Thomas)***

- **Ni fydd arlwyo na chlwb brecwast ar gael ar y safle tan yr wythnos sy'n dechrau 1 Mawrth- bydd angen i ddisgyblion ddod â phecynnau bwyd. Bydd taliadau prydau ysgol am ddim yn parhau ar gyfer pob disgybl cymwys.**

- **Bydd Clwb Brecwast yn dechrau ar Fawrth 1af bob bore rhwng 8 a 8.30yb**

- **Bydd disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gallu mynychu'r ysgol rhwng 8.45yb a 9.15yb o Chwefror 23ain ond byddant yn gallu mynychu'r Clwb brecwast o 8 o'r gloch ymlaen o Fawrth 1af.**

-
- **Bydd yr ysgol yn parhau i sicrhau bod darpariaeth ar y safle (Hwb) ar gael i blant sy'n agored i niwed a phlant gweithwyr critigol. Bydd y linc ar gyfer cofrestri ar wefan yr ysgol ac ar ourschoolsapp bod bore Dydd Llun ac yn cau am 4 o'r gloch ar brynhawn Dydd Iau.Bydd darpariaeth ar y safle ar gael o Chwefror 22ain rhwng 9yb a 3yp.**
- **O Fawrth 1af ymlaen byddant yn gallu mynychu'r Clwb Brecwast rhwng 8yb a 8.30yb a chael cinio ysgol.**

- **Bydd yr ysgol un cau am 3 o'r gloch i bawb.**

- **Gall y plant wisgo gwisg ysgol**

- **Bydd ysgolion yn parhau i ddarparu dysgu o bell i ddisgyblion Blwyddyn 3-6 bod bore Dydd Llun, Mercher a Gwener yn dechrau Chwefror 22ain.**

- **Ni ddylai plant a staff sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol (sy'n gwarchod) fynychu'r ysgol tan o leiaf 31 Mawrth a byddant yn parhau i ddysgu gartref.**

Gallwn eich sicrhau mai diogelwch disgyblion a staff yw ein prif flaenoriaeth, ac mae gennym fesurau iechyd a diogelwch cadarn ar waith, sy'n gyson â'r mesurau a nodwyd yn y cyngor gwyddonol diweddaraf-

Mae'r rhain yn cynnwys:

• Golchi dwylo/diheintio yn gyson ac yn effeithiol

• Rheoli symudiadau o amgylch yr ysgol i leihau cysylltiadau

• Awyru mewn ystafelloedd dosbarth drwy agor ffenestri/system aerdymheru

• Cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr rhwng oedolion bob amser

• Cadw disgyblion mewn grwpiau cyswllt cyson/swigod ystafell ddosbarth

• Lefelau uchel o lanhau effeithiol

• Staff a disgyblion i aros gartref os oes ganddynt symptomau, os ydynt wedi cael prawf positif neu os yw'n ofynnol iddynt hunanynysu

- Rheoli disgyblion / staff symptomatig yn effeithiol yn yr ysgol
- Mae ymchwil yn dangos bod cyfraddau trosglwyddo rhwng plant a phlant eraill, a phlant ac oedolion mewn ysgolion yn isel iawn; ac mae trosglwyddo yn fwy tebygol ar aelwydydd neu drwy weithgareddau yn y gymuned, er enghraifft, aros dros nos, partïon plant, rhieni'n cyfarfod mewn cartrefi eraill ac ati. Ni ddylai plant gymysgu y tu allan i amgylchedd yr ystafell ddosbarth ac mae grwpiau cyswllt/swigod ystafell ddosbarth yn berthnasol i leoliad yr ysgol yn unig.
- **Cofiwch y canlynol:**
- Dim ond un rhiant i ollwng/casglu plentyn
- Gwisgo gorchuddion wyneb (oni bai eu bod wedi'u heithrio)
- Peidiwch ag ymgasglu yn yr ysgol - gadewch cyn gynted ag y byddwch wedi gollwng/casglu eich plant
- Cadw pellter o 2 fetr oddi wrth oedolion eraill gan gynnwys staff yr ysgol
- Peidiwch â mynychu'r ysgol os ydych yn hunanynysu neu os oes gennych unrhyw symptomau
- Os oes gennych chi neu'ch plentyn neu unrhyw un arall sy'n byw yn eich cartref unrhyw un o symptomau Covid-19, rhaid i chi hunanynysu a chael eich profi ar unwaith. Mae hefyd yn bwysig eich bod yn rhoi gwybod i'ch ysgol os yw eich plentyn yn profi'n bositif. I gael yr holl wybodaeth ddiweddaraf am ysgolion gan gynnwys rhestr gynhwysfawr o Gwestiynau Cyffredin, ewch i'n gwefan sirgar.llyw.cymru/addysg

Diolch am eich cefnogaeth a'ch cyd weithrediad parhaus,

Beverley Owen